


DERFEL, ROBERT JONES (1824 - 1905), bardd a sosialydd



Enw: Robert Jones Derfel
Dyddiad geni: 1824
Dyddiad marw: 1905
Rhiant: Catherine Jones
Rhiant: Edward Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd a sosialydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Eisteddfod; Barddoniaeth; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
Awdur: David Gwenallt Jones

Mab Edward Jones a Catherine, ganwyd 24 Gorffennaf 1824 yn y Foty, cartref ei daid, fferm ar y bryniau rhwng Llandderfel a Bethel. Symudodd ei rieni i Tan-y-ffordd, tŷ bychan yn ymyl Llandderfel. Aeth oddi yno i chwilio am waith, ac wedi llawer o grwydro, cafodd waith fel trafaeliwr yn swydd Stafford, rhannau o ganolbarth Lloegr, a Gogledd Cymru i lawr hyd at Aberystwyth gan gwmni J. F. a H. Roberts, Manceinion [gweler **Roberts** o Mynydd-y-gof]. Bu'n bregethwr cynorthwyl gyda'r Bedyddwyr, ac ysgrifennodd i'w cyfnodolion, *Y Tyst Apostolaidd*, ac *Y Greal*.

Ym Manceinion ffurfiwyd cymdeithas lenyddol o bedwar, '**Creuddynfab**,' '**Ceiriog**,' '**Idris Fychan**' a Robert Jones; mynnai Robert Jones iddynt gymryd cyfenwau Cymraeg, a gosododd 'Derfel' ar ôl ei enw bedydd ei hun. Enillodd ar bryddestau mewn eisteddfodau; danfonodd i'r *Amserau* ddarnau o gerdd ar *Reports of the Commissioners of Enquiry into the State of Education in Wales...*; ataliwyd ei chyhoeddi, ac argraffodd y gerdd gyfan dan yr enw **Brad y Llyfrau Gleision**, 1854. Cyhoeddodd yn 1864 *Traethodau ac Areithiau*, lle dadleuodd dros brifysgol i Gymru, dros bapur dyddiol Cymraeg, llyfrgell genedlaethol, llyfrgelloedd pentref, amgueddfa genedlaethol, ysgol gelfyddyd, ac arsyllfa. Dengys y llyfr hwn ei fod yn un o arloeswyr y mudiad cenedlaethol yn y ganrif ddiwethaf.

Gadawodd grefydd; troes yn sosialydd a rhesymolwr tan ddylanwad llyfrau **Robert Owen**. Yr oedd R. J. Derfel yn un o'r rhai a gychwynnodd yn 1890 y 'Manchester and District Fabian Society.' Ysgrifennodd rhwng 1889 a 1904 lawer o lyfrynnau a cherddi yn Saesneg ar sosialaeth, ac ynddynt yr oedd yn fwy o Oweniad nag o Ffabiad. Cyhoeddodd yn *Y Cymro* a *Llais Llafur* rhwng 1892 a 1903 gyfresi o erthyglau a llythyrau ar sosialaeth - yr erthyglau cyntaf ar sosialaeth yn Gymraeg; yn y rhain ceisiodd gysoni ei sosialaeth â Christnogaeth a chenedlaetholdeb. Daeth dan ddylanwad y mudiad seciwlaraidd, yn enwedig weithiau Holyoake a Bradlaugh, ac ysgrifennodd nifer o erthyglau i *The Freethinker* a chylchgronau seciwlaraidd ac agnostig.

Wedi rhoi'r gorau i bregethu tua 1865 prynodd â'r arian a gynlasai siop i werthu llyfrau Cymraeg ym Manceinion, a gwasg ynghlwm wrthi, a'i wasg ef ei hun a gyhoeddodd rai o'i bamffledi Saesneg ar sosialaeth; hefyd cyhoeddodd '*Derfel's School Series*,' cerddi Saesneg, gyda nodiadau, ar '**Llywelyn ab Gruffydd**' ac eraill, a hefyd ddetholiadau bychain o weithiau Scott, Coleridge, ac eraill, ond rhoddwyd pen ar y cyhoeddi hwn i ysgolion pan ddewisodd y Bwrdd Addysg wasg iddi hi ei hun. Bu farw 17 Rhagfyr 1905, a llosgwyd ei gorff yn y crematoriwm ym Manceinion.

Awdur

David Gwenallt Jones, (1899 - 1968)

Ffynonellau

Detholiad o Ryddiaith Gymraeg R. J. Derfel (Aberystwyth 1945), gyda rhagymadrodd gan D. Gwenallt Jones, 1945, i, ii

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Robert Jones Derfel**

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 12064319

Wikidata: Q7346183

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Jones, D. G., (1953). DERFEL, ROBERT JONES (1824 - 1905), bardd a sosialydd. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DERFEL-JON-1824>

Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwciis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Wedi gysylltu gyda
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government